tafod elái

EBRILL 2018

Rhif 326

Pris 80c

Seren Ddisglair

Llongyfarchiadau i Ebony Smith, Blwyddyn 9, Ysgol Gyfun Garth Olwg sydd wedi ennill y wobr 'Seren Ddisglair' yn Seremoni Wobrwyo flynyddol YEPS - Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid. Cynhaliwyd y seremoni yn y Coliseum, Aberdâr diwedd mis Mawrth. Roedd 6 person ifanc wedi cael eu henwebu a llwyddodd i ddod i'r brig yn RhCT!

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu sesiynau amser cinio ac ar ôl ysgol yn cynnwys Coginio, Clwb Ffilm a Nofio. Mae llawer o wybodaeth i ieuenctid yn Gymraeg ar wicid.tv.

Tywydd yn Amharu ar Weithgareddau

Penwythnos cyntaf mis Mawrth daeth y tywydd oer o'r dwyrain gan achosi cau ysgolion, trafferthion di-ri i deithwyr ac i gartrefi a ddioddefodd o bibellau dŵr yn rhewi. Bu llawer yn rhoi cymorth i'r henoed ac roedd yr awyrgylch o ofal cymdeithasol ar ei orau. Gohiriwyd nifer fawr o weithgareddau Gŵyl Ddewi. Cafwyd penwythnos arall o eira cyn diwedd y mis ond gobeithir am wanwyn braf. Dyma olygfeydd ym Mhentyrch.

Gemau'r Gymanwlad yn Awstralia

Pob lwc Emily!

Mae un o ddisgyblion blwyddyn 12 Ysgol Llanhari sef Emily Thomas yn gwneud cryn enw iddi hi ei hun ym myd gymnasteg. Dewiswyd hi i gynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Awstralia y Gwanwyn hwn a dymunwn yn dda iddi. Gwelir Emily (chwith yn y llun uchod) yn derbyn cydnabyddiaeth rhyngwladol gyda gweddill aelodau'r tîm.

7.30YH, 5ED O EBRILL
CAPEL Y TABERNACL, EFAIL ISAf

NOSON GERDDOROL GYDA'R TEULU LOVELL-JONES

Tocynnau - £10
Gan aelod o'r Pwyllgor
Neu ffoniwch Rhian ar 07855 453409

Noson er budd Pwyllgor Apêl Pentyrch a Creigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
3–11 Awst 2018

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Cymru FM
Efallai eich bod wedi clywed rhaglen gan rai o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar *Cymru*

FM yn ddiweddar. Bu'r disgyblion wrthi'n brysur yn paratoi ac yn darlledu rhaglen hynod o ddifyr yn cynnwys jôcs, eitemau amrywiol a cherddoriaeth. Cafodd y plant amser wrth eu boddau ac roeddynt mor broffesiynol!

Llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a brofodd lwyddiant yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn ddiweddar. Dyma restr ohonynt: Llefaru Blynyddoedd 5 a 6: 1af Hedd Teifi, 2il Ifan Roberts. Llefaru Blynyddoedd 3 a 4: 1af Geraint Barnes, 2il Gwern Teifi. Llefaru Blwyddyn 2 ac Iau: 2il Gruff Morris, 3ydd Alana Lockett. Unawd Blynyddoedd 5 a 6: 2il Lena Evans, 3ydd Medi Adams. Unawd Blynyddoedd 3 a 4: 1af Seth Thomas, 3ydd Mali Jên Griffith. Unawd Blwyddyn 2 ac Iau: 3ydd Alana Lockett. Deuawd Blwyddyn 6 ac iau: 1af Lois James a Lena Evans, 2il Medi Adams a Huw Sharkey. Unawd Alaw Werin: 1af Lena Evans, 3ydd Medi Adams. Côr – 1af. Parti Unsain – 1af

Bydd y Parti Deulais, y Parti Llefaru, yr Ymgom a'r Ensemble Lleisiol yn mynd yn syth drwyddo i'r Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion heb anghofio'r staff fu wrthi'n brysur yn eu paratoi.

Ysgol Gyfun Llanhari
Ar Fawrth y 14eg, bu disgyblion Blwyddyn 6 ar eu hail ymweliad ag Ysgol Gyfun Llanhari. Yn ystod yr ymweliad, mi fuont yn coginio swper blasus ac yn dysgu ieithoedd modern. Llongyfarchiadau i'r criw o fechgyn a ddaeth yn fuddugol yn y cwis.

Sioe "Mewn Cymeriad"
Ddydd Llun y 12fed o Fawrth fe ddaeth cwmni Mewn Cymeriad atom i gyflwyno sioe ar hanes y Cymry a deithiodd i'r Wladfa nôl ym 1865. Yn ystod y perfformiad, fe ddaeth yr hanes yn fyw i'r disgyblion ac roedd cyfle i'r plant hefyd i chwarae rhannau rhai o'r cymeriadau.

Rygbi
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint 10 bob ochr ysgolion Pontypridd, yn Stadiwm Rygbi Pontypridd Heol Sardis yn ddiweddar. Llwyddodd y bechgyn i ennill 4 gêm, er iddynt golli yn y rownd gyn-derfynol. Da iawn chi fechgyn.

Diwrnod y Llyfr
Roeddem yn hwyrach nag arfer yn dathlu diwrnod y llyfr eleni, oherwydd bod yr eira wedi amharu ar ein trefniadau gwreiddiol. Ond gwell hwyr na hwyrach, ac ar ddydd Gwener y nawfed o Fawrth fe ddaeth pawb i'r ysgol wedi'u gwisgo fel eu hoff gymeriadau o lyfrau Cymraeg. Roedd bwrlwm ym mhob dosbarth wrth i'r disgyblion gyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n seiliedig ar ddarllen.

Acwariwm Bryste
Ddydd Mercher y 14eg o Fawrth, bu disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 ar ymweliad â'r acwariwm ym Mryste. Roedd yr ymweliad yn cydfynd â thema CA2 y tymor hwn, sef "Y Môr"

Gwasanaeth arbennig
Fe gawsom y pleser o gwmni Mr Adam Coleman mewn gwasanaeth ysgol gyfan yn ddiweddar. Yn ystod y gwasanaeth fe gyflwynodd Mr Coleman stori'r mab afradlon i ni a hynny mewn ffordd hwyliog gyda chymorth ei byped doniol.

Ymwelwyr arbennig
Roedd cyffro mawr yn yr ysgol yn ddiweddar wrth i ddau gyw bach ddeor o'u hwyau. Roedd pawb wedi gwirioni â nhw!



Ysgol Pont-Siôn-Norton

Criw Clwstwr
Diolch i'r ysgol gyfun am groesawu criw o'r ysgolion cynradd i greu cylchgrawn clwstwr. Cafwyd hwyl yn creu a chwrdd â ffrindiau newydd.

Pêl-rwyd
Bu'r tîm pêl-rwyd yn gweithio'n galed yn ystod twrnamaint y Sir. Roedd pob gêm yn agos iawn. Da iawn chi!

Diwrnod y Llyfr
Cafwyd llawer o chwerthin yn ystod diwrnod y llyfr gyda'r holl wisgoedd gwych. Diolch i bawb am eu hymdrech arbennig.

Tripiau
Aeth blynyddoedd 5 a 6 i Sain Ffagan i ddysgu mwy am y Tuduriaid. Aeth dosbarth Mrs Barry i Ganolfan Hyder i ddysgu am ddefnyddiau. Profiadau gwych i atgyfnerthu'r dysgu!

Eisteddfod
Ar ôl diwrnod o gystadlu brwd yn yr Eisteddfod Gylch rydym yn dymuno'n dda i Gruff England yn yr Eisteddfod Sir gyda'r adrodd dan 10.

Pitran-patran
Cafodd y dosbarth Derbyn lawer o hwyl a sbri yng Nghanolfan Garddio Pughs yn arbrofi a chwarae gyda dŵr. Diolch i'r athrawon am drefnu!

Cadw'n Heini
Fel rhan o dasg cyfoethog y Cyfnod Sylfaen, daeth Heini i ymweld a chynnal sesiynau dawnsio a chadw'n heini. Roedd pawb wedi blino'n lân!

Pasg
Diolch i ffrindiau Pont-Siôn-Norton am drefnu'r disgos Pasg ac i'r athrawon am drefnu'r Parti Pasg. Cafwyd ymweliad gan Sali Mali a Superted hefyd! Diolch hefyd i'r holl ymwelwyr o'r cylchoedd meithrin a'r rhieni a ddaeth i gefnogi a mwynhau.

Cogurdd
Llongyfarchiadau i Lili a Jessica am ennill ail a thrydydd wobr ac i Ifan am ymdrech wych! Daliwch ati i goginio!

Ukelele
Mwynheuodd criw dosbarth Mrs Barry yn y gweithdy ukulele gyda Mei Gwynedd. Cyfansoddwyd cân erbyn y diwedd a pherfformiodd y dosbarth o flaen yr ysgol-gwych!



Ysgol Tonyrefail

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi
Rhaid oedd dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd yr eira ond cafwyd cystadlu brwd eto eleni yn eisteddfod yr ysgol a diolch i bob disgybl am eu cyfraniad i'r dathliadiadau. Uchafbwynt eisteddfod yr ysgol oedd seremoni y cadeirio a'r enillydd oedd 'Hugo Boss'- sef Sam Carpenter disgybl ym Mlwyddyn 6. Daeth Ffion Roberts yn ail a Isabelle Owen yn 3ydd yn y gystadleuaeth.

Eisteddfod Yr Urdd Cylch Llantrisant
Diolch yn fawr i'r holl ddisgyblion wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Yr Urdd Cylch Llantrisant yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Evan Fletcher: 1af canu a llefaru Bl1

a 2, Darcey Davies: 2il canu Bl 3 a 4, Esmay Walters: 3ydd llefaru Bl 3 a 4, Ava Martin Thomas: 1af canu a 3ydd llefaru Bl 5 a 6, Isabelle Cartwright: 2il alaw werin. Pob lwc i Evan ac Ava yn yr eisteddfod sir ym Mhorthcawl.

Hyfforddiant Achub Bywyd

Diolch yn fawr i P.C.Davies un o lywodraethwyr yr ysgol am roi hyfforddiant pwysig i blant yr Adran Iau ar sut i ddefnyddio offer achud bywyd. Mae bellach 10 defibrileiddiwr yn ardal Tonyrefail diolch i waith di-flino P.C.Davies.

Hanes yr Iaith
Cafwyd ymateb arbennig gan ddisgyblion yr Adran Iau i sioe 'Hanes yr Iaith' gan gwmni

Mewn Cymeriad ac roedd perfformiad Llion Williams yn wych. Roedd y plant wir wedi mwynhau dysgu ffeithiau diddorol am yr Iaith Gymraeg.

Profiad y Pasg
Diolch i Ficer Ruth ac aelodau Eglwys Dewi Sant am dywys Blwyddyn 6 drwy Brofiad y Pasg yn yr eglwys. Roedd y plant wedi mwynhau cymeryd rhan y gwahanol weithdai.

Diwrnod Syndrom Down y Byd
Daeth yr holl ddisgyblion i'r ysgol yn gwisgo sannau lliwgar i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Down Syndrom y Byd. Diolch yn fawr i flwyddyn 3 am arwyddo neges y diwrnod yn ein gwasanaeth.

Y Frigad Dân
Diolch yn fawr i aelodau'r Frigad Dân a ddaeth i ddysgu disgyblion Blwyddyn 2 a 6 am ddiogelwch tân y cartref.

Gweithdai STEM
Cafodd Blwyddyn 5 gyfle i fynychu gweithdai STEM wedi eu trefnu gan yr Awyrlu yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Cafwyd diwrnod yn llawn gweithgareddau heriol a diddorol. Cafodd Rebekah Lewis ag Ava Martin-Thomas eu cyfweld gyda Air Commodore Williams am weithgareddau STEM ar raglen Post Cyntaf ar Radio Cymru. Braf hefyd oedd cyfarfod a chael sgwrs â Shân Cothi tra yn y BBC.

Merched y Wawr Tonysguboriau yn dathlu Gŵyl Dewi yn Neuadd Lanelai.

Aled a Miriam yn cystadlu yn 'Celwydd Noeth' (tudalen 8)

Tomos ac Iwan ar raglen Bore Cothi (tudalen 8)

talent HR CONSULTANCY YMGYNGHORIAD

Gwasanaeth Adnoddau Dynol broffesiynol dwyieithog ar gael gan Bethan Emanuel MA FCIPD Yn newydd yn 2018 - mentora ac anogaeth i Uwch reolwyr. Cysylltwch ar bethanemanuel@talent.me.uk neu 07778015585

Ysgol Creigiau

Gwobr Efydd y Siarter Iaith
Fe ddaeth dau swyddog o Gonsortiwn Canolbarth y De i'r ysgol ddechrau'r tymor i ddilysu gwobr efydd y Siarter Iaith, a braf yw gallu dweud ein bod wedi derbyn y Wobr Efydd. Ar ddiwedd Chwefror, mynychodd Gwenno-Mai a Lili, dau o'n grŵp 'Cymry Cŵl Creigiau', seremoni wobrwyo yn Nhŷ Dysgu i dderbyn y dystysgrif. Rydym eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer y Wobr Arian!

Diwrnod Rhif a Gwisgwch Goch i Gymru
Fe gefnogon ni 'Ddiwrnod Rhif' yr NSPCC trwy ymgymryd â gweithgareddau Mathemategol a Rhifedd drwy'r dydd a 'Gwisgwch Goch i Gymru a Felindre'. Cafwyd llawer o hwyl yn ogystal â llwyddo i gasglu swm gwych o £513 tuag at y ddwy elusen.

Ymweliad gan dwy Newyddiadurwraig
Mae wedi bod yn bleser croesawi dwy newyddiadurwraig flaenllaw i'r ysgol yn ddiweddar, sef Mrs Jennifer Jones sy'n Newyddiadurwraig Darlledu gyda'r BBC a Catrin Heledd sy'n Newyddiadurwraig Chwaraeon gyda'r BBC. Bu'r ddwy yn siarad am eu gwaith a'u profiadau ac, yn fwy na dim, am sut mae bod yn ddwyieithog wedi eu helpu yn eu gyrfaoedd. Mwynheuodd y disgyblion wrando arnynt yn sôn am eu profiadau helaeth. Diolch yn fawr i'r ddwy.

Merched Mentrus Plasmawr
Braf iawn oedd cael cwmni rhai o Ferched Mentrus Plasmawr yn yr ysgol yn ystod y tymor yn enwedig dwy o'n cyn ddisgyblion - Mari Boundy a Nesta Comerford. Fe ddaethant i siarad gyda disgyblion Dosbarth 5 a 6 am bwysigrwydd dangos cyfeillgarwch tuag at ein gilydd. Fe egluron nhw'n effeithiol iawn sut mae geiriau cas yn gallu niweidio rhywun am byth.

Pythefnos Masnach Deg
Cawson ddiwrnod gwych yn gwisgo dillad melyn i ddathlu Pythefnos Masnach Deg. Bu'r grŵp Menter yn gwerthu bananas Masnach Deg yn ystod egwyl y bore. Diolch i Sainsbury's Pontypridd a Phenybont am gyfrannu'r bananas.

Twrnamaint Rygbi Tag a Thaclo
Aeth pedwar tîm rygbi - taclo a thag i gystadlu yn Nhwrnamaint yr Urdd a gynhaliwyd ar gaeau Pontacanna. Chwaraeon nhw i gyd yn wych gydag un tîm tag merched yn dod yn ail. Fe ddychwelodd pob un yn fwd o'u corun i'w sawdl…….. ond wedi mwynhau!

Peirianwyr Heb Ffiniau

Eisteddfod Ysgol
Ddydd Iau, Mawrth y 15fed, dathlon ni Ddydd Gŵyl Dewi drwy gynnal ein Heisteddfod ysgol. Bu'r disgyblion i gyd yn paratoi eitemau amrywiol er mwyn eu perfformio yn ystod y dydd. Cafodd disgyblion o bob dosbarth eu gwobrwyo am ddarnau o waith celf a gwaith llythrennedd. Cawsom ddiwrnod i'r brenin ac ar ôl brwydr galed, Iestyn oedd yn fuddugol eleni!

Eisteddfod Ddawns yr Urdd
Llongyfarchiadau i'r ddau sgwad Dawnsio Disgo a gystadlodd yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd yn Neuadd Goffa'r Barri yn ddiweddar. Roedd safon y dawnsio yn uchel a pherfformiodd y ddau sgwad yn ardderchog gydag un yn cael eu gosod yn drydydd a'r llall yn gydradd bedwerydd. Da iawn ferched - gwych!

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Taith Gelf i Fryste

Eleni fel rhan o'r cwrs Celf a Ffotograffiaeth cawson ni'r cyfle i fynd ar daith gerdded o gwmpas Bryste a chymryd rhan mewn gweithdy celf. Gwnaeth ein grŵp ni'r gweithdy yn gyntaf. Roedd y gweithdy yn cael ei gynnal yn yr hen garchar, mi oedd yr ystafell yn dywyll iawn ond yn lle perffaith i greu ein gwaith chwistrellu paint. Roedd y cwmni 'where the wall' wedi paratoi gwahanol stensilau, rhai stensilau gan Banksy yr artist, yn barod ar gyfer ein gwaith. Gwnaeth artist stryd wedyn ddangos i ni'r dechneg ar gyfer sut i ddefnyddio paent chwistrell, er bod y broses yn edrych yn rhwydd mae yna dechneg benodol i ddilyn i gael y safon uchaf. Mi oedd hwn yn hwyl, rwyf wedi gwneud ychydig o waith peintio fel hyn o'r blaen, ond mi oedd y stensil wedi ei dorri mor broffesiynol roedd y canlyniad yn un arbennig! Gwnes i ddewis y stensil o benglog. Ar ôl y gweithdy cawson ni wedyn ein tywys o gwmpas y ddinas i weld gwaith gwahanol artistiaid y stryd, gan gynnwys gwaith yr artist Banksy. Roedd cael gweld gwaith yr artistiaid wedi agor fy llygaid, gan nid dim ond gwaith chwistrellu paint oedd ar gael ond gwaith creadigol trwy ddefnyddio hen gwm cnoi a pheintio ar finiau, i artist arall oedd yn defnyddio hen gapiau o boteli niwclear sy'n cwympo oddi ar drenau yn ystod y nos a'u defnyddio i greu cerflunwaith ar y waliau. Roedd clywed am yr holl waith yma mor ddiddorol. Rwyf hefyd wedi llwyddo i gymryd lluniau o'r strydoedd ar gyfer ein thema 'Y Ddinas' ar gyfer ein portffolio o waith. Roedd y daith yn brofiad arbennig ac rwyf yn edrych ymlaen at greu mwy o waith celf fel ymateb i'r artistiaid a'r gweithdy.

Gan Bailey Parry-Smith, Blwyddyn 10.



Taith Gelf i Aberhonddu ac Abaty Tyndyrn

Aeth yr Adran Gelf a'r disgyblion sy'n astudio Celf a Ffotograffiaeth ar daith ar gyfer paratoi i'r arholiad ymarferol i Aberhonddu ac Abaty Tyndyrn. Dechreuodd y daith gyda thaith gerdded o

gwmpas Canolfan Etifeddiaeth Garwnant i gymryd lluniau ac arlunio trwy'r goedwig ac ar hyd yr afon a'r rhaeadrau. Roedd yr ardal yn brydferth iawn, cafodd sawl un lluniau o ansawdd da. Roedd rhaid i ni ystyried ein themâu personol, rhai yn astudio'r 'dŵr', rhai â'r thema 'gwyn' ac eraill â'r thema 'patrwm o fewn natur'. Roedd cael y cyfle yma yn helpu ni i adeiladu ar ein huned o waith a helpu ni i feddwl am syniadau ar gyfer ein darnau terfynol. Ar ôl y daith gerdded gwnaethon ni gael y cyfle i weld y gronfa ddŵr i ni gymryd mwy o luniau.

Ar ôl hynny cawson ni'r cyfle i gerdded o gwmpas Abaty Tyndyrn, roedd yr adeilad yn anhygoel! Roedd gweld y golygfeydd trwy'r hen ffenestri mawr mor hardd, roedd lliwiau gwanwynol yn dechrau ymddangos ar y coed o amgylch. Roedd y lle yn grand iawn er dim ond adfeilion sydd yna nawr, ond mi roedd yn rhwydd iawn i ddychmygu pa mor fawreddog oedd arfer bod. Roedd pawb wedi llwyddo i gymryd lluniau o safon uchel a nawr rydym yn teimlo'n fwy hyderus wrth fynd ati i gynllunio ar gyfer ein harholiad ymarferol. Diolchaf ar ran y flwyddyn gyfan am roi'r cyfle i ni.

Gan Bethan Thomas, Blwyddyn 11.

PARTI PONTY AR Y STRYD!! Gwyl Gymraeg i bawb

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Parti Ponty y llynedd lle unwaith eto croesawyd bron i ddeng mil o dorfeydd tuag at Barc Ynysangharad. Eleni, rydym am gymryd y flwyddyn yma fel amser i ddatblygu Parti Ponty fel digwyddiad i'r ardal gyfan drwy ei gynnal yng nghalon y gymuned yn nhref Pontypridd.

Bydd Parti Ponty eleni yn fwy ac yn well nag yr ydych erioed wedi profi o'r blaen, gyda chyhoeddiad mawr eisoes wedi'i gyhoeddi ar gyfer artistiaid y brif lwyfan ar ein gwefannau cyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn falch i glywed bydd yr Ŵyl Gymraeg arbennig hon yn cymryd lle ddydd Sadwrn, 14eg o Orffennaf rhwng 11yb a 6yh yng nghanol y dref ac yn parhau i'r nos yng Nghlwb Y Bont.

Yn ôl ein haddewid, rydym wedi ymateb i'ch adborth a gobeithio bydd lansiad yr amserlen llawn yn cydnabod hyn.

Dywed Einir Siôn, Prifweithredwraig Menter Iaith Rhondda Cynon Taf,

"Mae Parti Ponty yn ddigwyddiad i ddathlu unigrywiaeth a Chymreictod yr ardal hon. Rydym yn dod â'r ŵyl i ganol y dref i sicrhau fod y busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau hefyd. Mae'r dref Marchnad yma yn mynd i fod llawn lliw, bwrlwm, cerddoriaeth a gweithgareddau amrywiol, felly dewch i ymuno i ddathlu Cymreictod yr ardal"

Mae'r ŵyl wedi ei threfnu eleni gan yr elusen Gymraeg, Menter Iaith Rhondda Cynon Taf mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Bydd Parti Ponty yn parhau i roi llwyfan i amrywiaeth o berfformwyr a grwpiau Cymraeg. Bydd hefyd yn gyfle i'r cyhoedd gasglu gwybodaeth am wasanaethau a mudiadau Cymraeg sy'n gweithredu yn yr ardal. Mae'r Fenter wedi trefnu'r digwyddiad gydag ymrwymiad a chydweithrediad eu partneriaid Cymraeg, felly bydd yna gyfle i bawb i gymdeithasu! Eleni bydd yn ddiwrnod cyffrous a bendigedig, i'r gymuned oll gyda'r ŵyl yn cymryd lle yng nghanol y dref gyda stondinau diri, gweithdai amrywiol, bandiau Cymraeg adnabyddus, perfformiadau ysgolion lleol, gweithgareddau i ddysgwyr a llawer mwy.

Yn ystod yr wŷl fydd yna gyfle i wirfoddoli yn ystod y digwyddiad a hefyd cyfle i noddi ardaloedd penodol, os hoffech fwy o wybodaeth gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i gael cip olwg ar ein gwefan www.menteriaith.cymru

Tan hynny, cofiwch ddilyn y cyffro a'r holl ddatblygiadau diweddaraf ar-lein drwy ddilyn #PartiPonty18 , @PartiPonty18 ar Trydar a thudalen Menter Iaith RCT a Parti Ponty 18 ar Facebook.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Ebrill 2018:
1 – Oedfa Gymun Sul y Pasg dan ofal y Parchedig R. Alun Evans
8 – Oedfa dan ofal Dafydd Iwan
15 – Oedfa dan ofal Delwyn Sion
22 – Oedfa dan ofal y Parchedig Allan Pickard
29 - Oedfa Ardal dan ofal aelodau'r Eglwys Newydd

Mis Mai 2018:
6 – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Sion
13 - Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
20 - Oedfa dan ofal Emlyn Davies
27 - Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys

ooooOOOOoooo

Mae'r dywediad "*tydi rhywun ddim yn gweld gwerth mewn unrhyw beth nes i ni ei golli*" yn ddigon cyfarwydd i ni, ac mae modd i ni ei gymhwyso at sawl peth yn ein bywyd beunyddiol prysur siŵr o fod.

Rhyw deimlad felly oedd yn tŷ ni yn ystod eira a rhew mis Mawrth wrth i'r dŵr beidio â rhedeg am gyfnod o ryw bum diwrnod.

Toedd rhwyddineb troi'r tap a chael dŵr poeth ac oer yn ôl y galw ddim wedi taro rhywun hyd nes iddo, ar amrant, arafu, ac yna beidio'n llwyr, gan ein gadael yn di-ddiferyn. Dim paned o de, dim golchi dillad na llestri, dim molchi na glanhau dannedd, dim tŷ bach - dim dropyn at ddim byd dan haul.

Ymhen peth amser fe ddaethpwyd, bron yn ddiarwybod, i ryw drefn amgen o fyw gyda chyflenwad pitw o ddŵr yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol at sawl pwrpas gwahanol, gyda'r cam olaf bob amser i ,,,,,ia da'chi'n iawn……fanno!

O fyw mewn gwlad sydd â digon o law ac o'r herwydd digon o ddŵr, 'roedd yn deimlad chwithig gorfod rhoi dŵr mewn jwg a desgil, a'i drosglwyddo i'r fan hyn a fan draw heb golli'r diferyn lleiaf ohono os oedd hynny'n bosibl.

Ond, ynghanol ein trafferthion ni daeth atgof am hanes tîm o beirianwyr a phrentisiaid o gylch Caerdydd, dan ambarel EFOD (Engineers for Overseas Development), a fu'n darparu cymorth i bobl Uganda i adnewyddu ffynnon ddofn ym Malera yng ngogledd ddwyrain y wlad, a ddinistriwyd adeg yr ymladd ffyrnig yno yn nyddiau Idi Amin.

Yma, yn un o'r ardaloedd tlotaf yn y wlad, o ran cyfoeth ac addysg, y bu'r criw yn sicrhau bod y dŵr yn llifo unwaith yn rhagor o ffynnon a gloddiwyd gyntaf yn 1947, i sicrhau cyflenwad glân dibynnol i'r bobl a'u hanifeiliaid.

Ers yr ymladd, bu'n rhaid i'r trigolion weithio hefo pwmp llaw i dynnu rhyw 400 litr yr awr o'r ffynnon – wedi'r adnewyddu a thrwy gymorth paneli haul i gynhyrchu trydan, gellir mwyach sicrhau 6000 litr yr awr o ddŵr at ddefnydd 4000 o bobl a 10 000 o wartheg.

Peiriannydd Sifil, a Christion, sy'n byw yn Radur, Ian Flower, a sefydlodd EFOD yn y flwyddyn 2000, ac mae, gyda chymorth 800 o wirfoddolwyr, wedi gwario dros £1 miliwn yn y deunaw mlynedd diwethaf yn creu cynlluniau i ddarparu gwell safonau byw i bobl dlotaf cyfandir yr Affrig.

Ac o gofio am yr uchod, er gwaethaf yr anhwylustod personol, fe ddiflannodd fy hunan-dosturi i o orfod byw am ychydig ddyddiau heb ddŵr, yng nghanol llawenydd ffermwyr a thrigolion Malera o adfer eu ffynnon bywyd hwythau.

Pasg hapus i chi i gyd!

ooooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m. Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Lleoliad newydd i'r Ysgol Gymraeg
Ymhen rhyw chwe mis bydd yr Ysgol Gymraeg yn symud i leoliad newydd, sef i safle presennol yr ysgol gynradd Saesneg yng nghanol Tonyrefail. Mae hyn yn golygu y bydd modd derbyn rhagor o ddisgyblion a chynnal mwy o weithgareddau yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn cael ei hadnewyddu'n llwyr o dan gynllun Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod y neges hon yn cyrraedd darpar rieni sy'n chwilio am ysgol yng nghanol y pentref, yn enwedig yn sgil yr holl gyhoeddusrwydd mae'r ysgol Saesneg newydd sbon yn ei gael. Diolch i gymorth Cronfa Glyndwr, dosbarthwyd taflen i bob tŷ yr haf diwethaf ac mae'n ymddangos bod y daflen wedi bod yn effeithiol achos bod y niferoedd ar i fyny ar gyfer Medi nesaf.

Noson Sgwrsio
Cynhelir y Noson Sgwrsio nesaf nos Fawrth, 17 Ebrill yng Nghlwb Rygbi Tonyrefail am 7pm. Croeso i bawb sydd am gael sgwrs yn Gymraeg.

Apêl Pentyrch a Creigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018

Digwyddiadau y Gwanwyn

Noson Gerddorol gyda'r Teulu Lovell-Jones
7.30yh, 5ed o Ebrill, Capel y Tabernacl, Efail Isaf (noder y newid lleoliad)
Tocynnau £10 yr un ar gael gan aelod o'r Pwyllgor neu drwy ffonio Rhian ar 07855 453409.

Noson Fawreddog (eto) – 11 o Fai 2018!
I'r rheiny fynychodd y Noson Fawreddog yng Nglwb Rygbi Pentyrch fis Mai y llynedd, byddwch yn gwybod am lwyddiant y noson, a'r hwyl a gafwyd. Penderfynwyd felly i drefnu ail Noson Fawreddog i gloi gweithgareddau'r Pwyllgor eleni.

DYMA EICH NODYN I'R DYDDIADUR FELLY!
Lle? Y Babell Fawr ar Barc y Dwrlyn, Clwb Rygbi Pentyrch.
Pryd 11eg o Fai 2018 (7 ar gyfer 7.30yh)
Tocynnau - £35 i gynnwys pryd 3 chwrs ac adloniant gan The Amendments (band aelodau cast a chriw Pobol y Cwm, gan gynnwys Arwyn Davies). Ar gael gan aelodau'r pwyllgor neu drwy law Catrin ar 07803 341971.
Ymunwch / Dilynwch / Cyfranwch! – Twitter - @ApelPC2018
Facebook - Pwyllgor Apêl Pentyrch a Creigiau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo
Bydd trigolion hynaf y pentref yn cofio teulu Evan a Beatrice Hughes yn byw yn 33 Heol y ffynnon. Daeth i'm sylw'n ddiweddar fod Alun, eu mab, wedi marw. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w chwaer, Menna a'r teulu.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Osian Gruffydd, Parc Nant Celyn ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod mis Mawrth.

Y Tywydd Garw
Cawsom ein siâr o eira yn ystod mis Mawrth a wnaeth barlysu trafnidiaeth a chau ysgolion a chapeli. Rhaid diolch i'n cymdogion am eu caredigrwydd a'u gofal - rhai'n clirio eira o'r dreif, eraill yn mynd i'r siop i nôl llaeth a bara ac amryw'n ffonio i weld ein bod yn ymdopi â'r tywydd oer.

Mae Carey yn cofio Anti Vi yn sôn fod prif bibell ddŵr y pentref wedi rhewi'n gorn yn ystod yr eira mawr 1963. Doedd dim dŵr yn y tai am ddyddiau lawer ac roedd tancer dŵr yn dod yn ddyddiol i gyflenwi'r pentref a hynny cyn oes y poteli plastig.

Iwan yn serennu
Talwyd tipyn o sylw ar y cyfryngau i'r cyflwr Syndrom Down yn ystod mis Mawrth. Bu cyfres o gyfweliadau ar raglen Siân Cothi bob bore. Soniodd Mike a Lyn West o Barc Nant Celyn am eu hymateb i gyflwr Iwan, eu mab, a gafodd ei eni â Syndrom Down. Talwyd teyrnged i Iwan hefyd gan ei frawd Tomos. Canmolodd y teulu athrawon Ysgol Gynradd Garth Olwg am eu gofal tyner o Iwan ac am y ddarpariaeth wych mae'n derbyn ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd Glantaf yng Nghaerdydd. Yn ystod y rhaglen clywyd Iwan yn canu pwt o un o ganeuon Elvis. Iwan, ti oedd seren rhaglen Siân Cothi y bore Mercher hwnnw.

Cylch Cadwgan
Y Tabernacl oedd yn gyfrifol am gyfarfod Cylch Cadwgan a gynhaliwyd nos Wener 16 Mawrth yn Y Ganolfan a'r siaradwr oedd Elinor Wyn Reynolds. Ei thestun oedd 'Anturiaethau mewn Barddoniaeth'. Aeth ati i gyflwyno rhai o'i cherddi gan rannu'r amryfal 'anturiaethau' oedd wedi eu symbylu a nodi bod digwyddiad neu sylw digon dibwys ar yr olwg gyntaf yn ddigon i'w chymell i greu cerdd. Swynwyd y gynulleidfa gan y darlleniadau ac, yn ogystal, dreiddgarwch ei sylwadau bachog a doniol. Yn sicr cafwyd noson i'w chofio ac fel y crybwyllodd cadeirydd y cyfarfod - Emlyn Davies - wrth gloi, braf fyddai cael ei chwmni eto yn yr ardal cyn bo hir.

Merched y Wawr Cangen y Garth

Dathlu Gŵyl Ddewi
Diolch o galon i Gôr yr Einion a phlant ysgol Gynradd Gymraeg Gartholwg am ein diddanu mor ddeheyg ganol Mawrth. Cawsom noson o gerddoriaeth amrywiol, difyr, traddodiadol a modern mewn awyrgylch gynnes a braf a chyfle i gymdeithasu wedi hynny. Dymunwn yn dda i blant Gartholwg ar eu taith i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd!

Diolch o galon i'r aelodau fu mor barod i roi o'u hamser i recordio erthyglau allan o rifyn cyfredol Y Wawr ar gyfer y deillion yn genedlaethol - ac i Gill G. am yr holl waith trefnu!

Cyngerdd
Cynhelir cyngerdd arbennig yn Y Tabernacl nos Iau Ebrill 5ed am 7.30 yr hwyr. Teulu talentog Lovell Jones o Gaerdydd fydd yn perfformio ar eu hamrywiol offerynnau. Pwyllgor Apêl Pentyrch a Chreigiau fydd yn trefnu'r noson a'r elw'n mynd i Gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Y TABERNACL
Tywydd
Bu'n rhaid cau drysau'r Tabernacl ar ddau Sul yn ystod mis Mawrth oherwydd yr eira. Sefyllfa anarferol iawn i aelodau'r Tabernacl. Dim ond gobeithio y daw'r Gwanwyn a thywydd gwell cyn hir.

Aled yn Serennu
Gwelsom un o bobl ifanc y Tabernacl yn serennu ar y teledu yn ddiweddar. Fe ymddangosodd Aled Illtyd, mab Gareth a Rhiannon Humphreys gyda Miriam o Drefor, ffrind o ddyddiau Coleg, ar raglen gwis Nia Roberts, "Celwydd Noeth". Roedd popeth yn mynd yn rhyfeddol o dda i'r ddau tan i gwestiwn am anifeiliaid o Awstralia eu llorio. Fodd bynnag fe ddaeth y ddau o'r stiwdio gyd mil o bunnoedd yn eu pocedi. Llongyfarchiadau i chi eich dau.

Merched y Tabernacl
Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i Fwyty'r Caesar's ddydd Iau. Mawrth 22ain i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Cawsom ginio blasus a chyfle i gael sgwrs a chlonc. Ein cyfarfod nesaf fydd "Sgwrs a Phaned" yng Nghanolfan y Tabernacl am hanner awr wedi deg y fore dydd Gwener, Ebrill 20fed.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Y Grand National!
Siom ar y naill law – llwyddiant mawr ar y llall! Dyna hanes y noson rasio ceffylau gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghlwb Rygbi Pentyrch . Y siom oedd bod cyn lleied o bobl wedi dod i gefnogi noson i godi arian i'r Pwyllgor Apêl lleol ar gyfer y Steddfod. Ond y newyddion da oedd bod y prin dau ddwsin a ddaeth ynghyd wedi cael noson i'w mwynhau yn fawr, digon o sbort, o gyffro ac o weiddi cefnogaeth adeg pob râs! A diwedd y gân – tua £700 arall wedi ei gasglu tuag at y gronfa – er gwaetha'r seddi gwag! Diolch am hynny i Iwan a Bethan am lwyddo i ddenu noddwyr ar gyfer 6 o'r 8 râs – a diolch hefyd i'r noddwyr hynny yn naturiol; i Carol a Penri a Gareth a Morfudd am noddi'r 2 râs arall; i'r rheini ar y pwyllgor lwyddodd i "werthu" pob un o'r 64 o geffyle fu'n rasio ; diolch hefyd am bob bet osodwyd ar y noson, ac i Wyn Jones a'i bwyllgor bach fu'n trefnu'r digwyddiad. Ac yn ola i John Hardy am lywio'r noson mor hwylus ac i Andrew Davies yn fwy na neb falle am ddod â'r offer i gyd a rhoi o'i amser a'i allu i sicrhau fod yr holl achlysur wedi rhedeg yn gwbwl llyfn a didrafferth o'r dechre i'r diwedd. Unrhyw broblem gyda'ch cyfrifiadur – dyma'r dyn i gysylltu ag e! Yr achlysur nesa – noson yng nghwmni teulu talentog y Lovell-Jones yn Nhabernacl Efail Isaf ar y 5ed o Ebrill. Dewch yn llu! (H Ll D)

Menyw Nodedig
I nodi Diwrnod Rhyngwladol Menywod cyhoeddodd y Western Mail restr o gant o fenywod nodedig o Gymru. Dyna braf oedd gweld Sara Pickard yn cael sylw haeddiannol oherwydd ei gwaith clodwiw fel cynghorydd cymuned a chefnogwr elusen Mencap Cymru, heb sôn am ei llwyddiant fel actor. Ar ei theithiau i ysgolion a cholegau ar draws Cymru llwyddodd Sara i argyhoeddi pobl ifanc drwy ei hesiampl na ddylai anabledd gyfyngu ar eu uchelgais. Llongyfarchiadau gwresog i ti Sara a phob dymuniad da yn dy waith pwysig.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Ebrill
Ebrill 1af Sul y Pasg, Allan James
Ebrill 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Ebrill 15fed Oedfa i'r Teulu
Ebrill 22ain Keith Rowlands
Ebrill 29ain Y Parchedig Gethin Rhys

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Dafydd Roberts

Eira
Am dridiau fis diwethaf trodd bryniau Llantrisant a Meisgyn yn lethrau sgïo a sledio à la St Moritz neu Verbier, wedi i orchudd trwchus o eira ddisgyn dros Gymru gyfan. Roedd holl ysgolion y sir ar gau am ddeuddydd - digon o gyfle felly i fwynhau. Bu cannoedd o blant a'u rhieni yn eu morio hi ar y llethrau. Ond cafodd un o drigolion Meisgyn fraw a hanner ar ôl colli ffôn ar un o'r llethrau, dan drwch o eira, rhywbryd fore Gwener. Trwy ryw ryfedd wyrth, a chyda'r dechnoleg tracio ffonau diweddaraf, fe ddaethpwyd o hyd i'r teclyn yng nghanol y cae, oriau yn ddiweddarach. Antur yn wir!

Eisteddfod
A hithau'n fis Mawrth mae'n gyfnod Eisteddfod yr Urdd – yn gylch a Sir. Llongyfarchiadau i bawb gafodd lwyddiant yn y cylch ac sy'n paratoi i serennu ar lwyfan y sir. Diolch hefyd i'r holl athrawon sydd wedi bod yn eu paratoi ers sawl wythnos. Gobeithio y gwelwn ni nifer ohonoch chi yn Llanelwedd yn ddiweddarach eleni!

Ffarwelio â Gwyndaf
Bob nos Fercher mae criw bychan ond triw o ddisgyblion uwchradd wedi bod yn cwrdd o dan adain Adran Tonysguboriau i fwynhau llu o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond fis diwethaf bu'n rhaid ffarwelio â'r arweinydd Gwyndaf ar ôl iddo dderbyn swydd yn y gorllewin. Pob hwyl i ti Gwyndaf ar dy swydd newydd a diolch i ti am dy waith diflino. Yn ei absenoldeb bydd yr adran yn parhau ac mae croeso mawr i aelodau newydd.

Taith Rygbi i orllewin Llundain
Dros hanner tymor aeth cynrychiolaeth o dimau ieuenctid clwb rygbi Llantrisant i ardal Richmond yng ngorllewin Llundain i gystadlu mewn twrnament rygbi. Cafwyd cryn lwyddiant a llawer o sbort.

Cyngerdd Mewn Bragdy
Ar gyfer gêm chwe gwlad Cymru ac Iwerddon, roedd cyfle i'r cyhoedd wylio'r gêm ym mragdy'r 'Glamorgan Brewery' ar gyrion y dref. Er mwyn diddanu'r dyrfa cyn y gêm, gwahoddwyd Côr Tadau Trisant i ganu ychydig ganeuon. Roedd y côr yn fwy na pharod i wneud, ac wrth gwrs i brofi'r danteithion oedd wrth law!

Pecyn Cymunedau Byw

Adeiladu storfa o syniadau a deunyddiau i'w defnyddio yn ein cymunedau

Annwyl Ddarllenwr,
Os ydych chi eisiau cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cymuned, bydd diddordeb gennych mewn pecyn newydd, sydd â'r nod o ddefnyddio'r brwdfrydedd sydd yno eisoes!

Mae'r pecyn yn storfa o syniadau ymarferol i weithredu o fewn cymunedau. Mae'n cynnwys enghreifftiau a chanllawiau, ond y prif amcan yw ei ddefnyddio i gychwyn trafodaeth gydag unigolion, busnesau, grwpiau neu gymdeithasau o fewn cymunedau lleol i wneud gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar sut allai pobl fynd ati i agor y drws i ddysgwyr fel cyfranwyr gwerthfawr i'n iaith a'n diwylliant.

Mae llawer iawn o waith da yn digwydd yn barod yn ein cymunedau. Yr hyn rydyn ni wedi ceisio ei wneud yw dod â rhai o'r adnoddau ynghyd er mwyn galluogi mwy o bethau ymarferol ddigwydd yn ein cymunedau. Rydyn ni wedi ceisio rhwydo'r syniadau a'r brwdfrydedd sydd allan yno, a chynnwys awgrymiadau i bobl eu defnyddio.

Wrth gyflwyno'r pecyn yma y gobaith yw darganfod 'sbardunwyr' cymunedol fydd yn gallu mynd i'r afael â'r gwaith hollbwysig yma i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw, i'w gweld a'i chlywed yn eich cymuned.

Diolch am gefnogaeth parod Huw Llewelyn Davies, Rhys Mwyn a Sharon Morgan a phawb arall sydd wedi cyfrannu at baratoi cwis sy'n cydfynd gyda lansiad y pecyn. Mae posib llawrlwytho'r cwis a'r pecyn neu dderbyn copi caled drwy'r post.

Gallech weld y pecyn trwy fynd i http://cymdiethas.cymru/pecyn, neu os oes unrhyw un eisiau cyfrannu syniadau at y pecyn neu wybod mwy , mae croeso iddyn nhw gysylltu â ni ar nia@cymdeithas.cymru neu post@cymdeithas.cymru neu ffonio 01970 624501.

Cofion cynnes,
Nia Llywelyn, Swyddog Cymunedau Byw, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cefnogi Apêl Caerdydd
Ganol y mis aeth nifer o blant yr ardal gyda chriw Bro Taf i ganu mewn cyngerdd yn Ysgol Glantaf. Codi arian at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd oedd y nod. Cafwyd noson o adloniant pur gyda chôr Bro Taf, Dawnswyr Nantgarw a chantorion Ardwyn yn codi'r to.

Gohebydd mis nesaf: Siân Llewellyn Barnes

Theatr Genedlaethol Cymru mewn cydweithrediad ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Theatrau Sir Gâr

Estron
gan Hefin Robinson
Enillydd Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy 2016
Ar daith ledled Cymru
19 Ebrill - 19 Mai 2018
Gliniadur, tun o siocledi Quality Street, ac awdur yn chwilio am ei ddrama mewn bydysawd diderfyn.

Mae digwyddiadau ysgytwol diweddar wedi troi byd Alun ben i waered, ond yn y tywyllwch mae'n ceisio cysur gan ymwelydd o fyd arall.

Drama newydd ar gyfer y genhedlaeth hon gan un o'n hawduron ifanc mwyaf disglair, ac enillydd Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau, 2016. Llwyfannwyd Estron am y tro cyntaf yn y Cwt Drama, Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, 2017. Dyma gyfle prin i weld gwaith buddugol y Fedal Ddrama ar daith genedlaethol.

"Ro'n i'n ddagrau i gyd, a gwên lydan ar fy ngwep, pan saethais ar fy nhraed ar ei diwedd . . . Dyma ddrama bwerus . . . y mae'n rhaid ei phrofi."

Lowri Cooke

7.30yh 24 Ebrill, Canolfan Garth Olwg.

Digwyddiadau Canolfan Mileniwm Cymru

NYRSYS
17 Ebrill Stiwdio Weston
Dyma gipolwg ar brysurdeb dyddiol ward canser mewn ysbyty yng Nghymru heddiw yn y gwaith-ar-waith dwyieithog yma.

Theatr Genedlaethol Cymru ar y cyd â Pontio.

DWY
18 Ebrill Stiwdio Weston
Dwy chwaer. Dwy ddramodwraig newydd. Dwy ddrama Gymraeg fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Theatr Genedlaethol Cymru, mewn partneriaeth gydag Urdd Gobaith Cymru.

CABARELA
28 Ebrill ffresh
Harmonïau unigryw tair chwaer 'Sorela' sy'n llywio noson o gomedi drwy gân gan gynnwys ffraethineb Hywel Pitts a nifer o artistiaid cyffrous eraill i'w cyhoeddi maes o law.

CONNIE ORFF
18 Mai ffresh
Gyda llond ei phwrs o gomedi daw cwîn Castell Nedd i ffresh am noson unigryw o gabaret dwyieithog a disglair.

Archebu nawr...
wmc.org.uk/chwilfrydig

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
26 Ebrill 2018

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Copyprint Wales
Trefforest
www.copyprintwales.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Noson yng nghwmni

Dr Elin Jones

Mai 9ed
yn Y Ganolfan, Efail Isaf

Gwybodaeth bellach: 02920890979

MERCHED Y WAWR
Pontypridd

12fed o Ebrill –

Noson
Sgrabl Cymraeg

Rhagor o fanylion:
01443 485272

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Ebrill 18fed

Noson gyda
Eluned Winney
o 'Sewabaloo'

Rhagor o fanylion:
01443 223828

CLWB Y DWRLYN

Yr Ebenezers
Lyn a Dylan
yn hel atgofion

8yh Nos Iau, 17 Mai
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
Manylion: 029 20890040

LLANILLTUD FAERDREF

Gohebydd Lleol:
Emma Thompson

Swydd newydd
Dymunwn pob lwc i Helen Carroll o Bentre'r Eglwys yn ei swydd newydd fel athrawes Mathemateg yn Ysgol Gyfun Garth Olwg. Mae Helen wedi dysgu Cymraeg fel oedolyn ac yn haeddu pob clod am ei llwyddiant yn cael swydd yn yr ysgol. Pob dymuniad da i Helen sydd yn dechrau ei swydd newydd ar ôl gwyliau'r Pasg.

Tylino a Ioga Babis
Mae grŵp Tylino a Ioga i fabis yn cael ei gynnig yn Gymraeg i Blant Mudiad Meithrin yng Nghanolfan Gydol Oes Garth Olwg, Heol Sant Illtud, ar brynhawn dydd Iau 1y.p tan 2y.p. Mae'r grŵp, sydd yn cael ei arwain gan Sherrie Hawkes, yn addas i fabis 8 wythnos i 9 mis, ac yn awr hyfryd i riant wario amser gyda babi newydd a chryfhau ymlyniad rhwng y babi a'r rhiant. I gofrestru am y sesiwn rhaid cysylltu trwy ebostio Sherrie.Hawkes@Meithrin.Cymru neu 07456 599023. Hefyd ar ddydd Iau yn yr un ystafell yn dilyn yr uchod am 2y.p mae yna sesiwn Stori a Chan sydd yn addas i blant 0 i 3 mlwydd oed. Does dim rhaid cofrestru o flaen llaw am y sesiwn hwyl yma.

I dadau yn unig mae grŵp newydd Tylino, Ioga babi a chân yn cael ei chynnal fore Sadwrn y 7, 14, 21, 28fed o Ebrill am 10 y.b yn Llyfrgell Pontyclun, Heol y Felin. Mae'n rhaid archebu lle gyda Sherrie Hawkes, eto trwy Sherrie.Hawkes@Meithrin.Cymru neu 07456 599023.

Storiau a Chreftau
Ddydd Mawrth 3ydd o Ebrill fe fydd sesiwn Cymraeg storiau a chreftau yn llyfrgell Pentre'r Eglwys o 10.30 - 11.30. Fydd rhaid i riant neu ofalwr aros efo plant o dan 8 mlwydd oed.

Cyhoeddi enillwyr Gwobrau Dewi Sant
Mae Jasmin Williams, 11 oed o Lanilltud Faerdref, wedi ennill Gwobr Pobl Ifanc yng Ngwobrau Dewi Sant. Gwobrau Dewi Sant yw Gwobrau Cenedlaethol Cymru sydd yn cael eu henwebu gan y cyhoedd. Llynedd fe wnaeth Jasmin, sydd yn mynychu Ysgol Gyfun Bryncelynnog, godi dros £2,000 i bobl digartref yn Rhondda Cynon Taf. Dywedodd Gwobrau Dewi Sant fod Jessica wedi "arddangos tosturi gwirioneddol ac aeddfedrwydd y tu hwnt i'w hoedran i helpu'r rhai sy'n llai ffodus na hi". Derbyniodd Jessica tlws Gwobrau Dewi Sant, wedi ei ddylunio a'i saernïo gan un o artistiaid blaenllaw Cymru. Llongyfarchiadau i Jessica.

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

Ysgol Evan James

Mis llawn bwrlwm.

Aeth Blwyddyn 6 i Disneyland Paris

Cyngor Iechyd a Lles yn dathlu Presenoldeb 100%

Dathlu Wythnos Wyddonol

Daeth Mr. Mosaig i weithio gyda'r plant i greu Mosaig hyfryd ar gyfer yr iard

Aeth Meithrin a Derbyn ar Drip i'r Lido

Aeth Ffion a'r Grŵp Dawnsio trwodd i'r Eisteddfod Sir.

Gwisgo coch i ddangos eu cefnogaeth dros athletwy'r Cymru.

Gwobr efydd Siarter yr Iaith

Dathlu'r bobl sy'n gwneud Cymru yn lle da i heneiddio

Mae'r ffyrdd ysbrydoledig mae grwpiau ac unigolion yn gweddnewid bywydau pobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru wedi cael eu cofnodi mewn cyfres o Straeon Heneiddio'n Dda[1], a gyhoeddir heddiw gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae'r casgliad o straeon yn dathlu'r gwaith anhygoel ac arloesol sy'n cael ei gyflawni'n lleol ar gyfer pobl hŷn sy'n gwneud byd o wahaniaeth i'w bywydau, ond maen nhw hefyd yn ceisio ysbrydoli pobl eraill i weithredu yn eu cymunedau eu hunain a sefydlu eu mentrau eu hunain i helpu pobl hŷn ledled Cymru i heneiddio'n well.

Mae'r straeon yn edrych ar amrywiaeth o themâu – gan gynnwys bod yn egnïol, dysgu rhywbeth newydd, bod yn greadigol, ymgysylltu â'r gymuned a gwneud gwahaniaeth – a byddan nhw'n cael eu dosbarthu ar draws Cymru i'r rheini sydd awydd dechrau eu menter eu hunain drwy'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda yng Nghymru[2] sydd bellach â dros 1,500 o aelodau gan gynrychioli dros 500 o grwpiau a mudiadau.

Dywedodd Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: "Fe wnes i sefydlu Heneiddio'n Dda yng Nghymru fel mudiad cymdeithasol i ddod â phobl at ei gilydd i greu newid cadarnhaol a gwneud Cymru yn lle da i heneiddio i bawb.

"Mae hi wedi bod yn anrhydedd cwrdd â chynifer o unigolion, grwpiau a mudiadau anhygoel sydd wedi ymrwymo i wneud ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd yn llefydd gwell i heneiddio ac sy'n cyflawni cynifer o bethau anhygoel i wella bywydau pobl hŷn.

"Roeddwn eisiau dathlu cyfraniad neilltuol aelodau'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda i'w cymunedau, pobl sy'n llawn o'r ysbryd cymunedol sy'n ein diffinio ni fel cenedl, ac ysbrydoli pobl eraill drwy ddangos beth mae modd ei gyflawni pan ddaw cymunedau at ei gilydd. Dyna pam rwyf wrth fy modd yn cael cyhoeddi'r straeon hyn heddiw."

Cafodd y Straeon Heneiddio'n Dda eu lansio yn yr olaf o gyfres o ddigwyddiadau Dathlu Cymunedau Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a gafodd eu cynnal ar draws Cymru yn ystod Ionawr i Mawrth. Mae'r digwyddiadau wedi dod ag aelodau'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda ynghyd, gan roi cyfle iddyn nhw glywed gan y rheini sydd wedi sefydlu mentrau Heneiddio'n Dda, cymryd rhan mewn sesiynau gweithredu rhyngweithiol, rhannu ymarfer da ac edrych ar gyfleoedd newydd i weithio a phartneriaethau.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Heneiddio'n Dda yng Nghymru, ewch i http://www.ageingwellinwales.com/wl/home

Ysgol Dolau

(Lluniau tudalen 13)

Gymnasteg
Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae tîm gymnasteg Dolau wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd gan gipio'r drydydd safle. Llongyfarchiadau i bob aelod o'r tîm a oedd wedi rhoi eu hamseroedd cinio er mwyn hyfforddi a pharatoi ar gyfer y gystadleuaeth. Roedd pob aelod yn falch iawn i wisgo eu medalau efydd – camp arbennig iawn ac yn llawn haeddiannol ar ôl yr holl waith paratoi.

Trattoria
Dangosodd Dosbarth 5 y ffordd o ran presenoldeb yn ystod Tymor yr Hydref. Nhw oedd y dosbarth gyda'r canran presenoldeb uchaf a chawsant fynd i Trattoria yn Nhonysguboriau, lle cawsant bitsa, diod a hufen iâ. Cafodd y disgyblion amser bendigedig a hoffai'r ysgol ddiolch i Trattoria am roi'r wobr hael fel rhodd.

Dydd Mawrth y Crempog
Bu rhai o ddisgyblion Dolau yn brysur iawn yn coginio ar ddydd Mawrth y crempog. Gallai Jamie Oliver ddysgu rhywbeth oddi wrth y cogyddion ifanc yma! Mwynheuodd y disgyblion fwyta eu crempog gyda'u hoff ddanteithion.

Coch i Felindre
Ddydd Gwener, Chwefror 2ail, cyfrannodd pob disgybl yn y Dolau £1 er mwyn iddynt gael yr hawl i wisgo eu hoff grysau coch. Aeth yr holl arian at Ganolfan Canser Felindre ac fe fydd yn cefnogi'r gwaith a'r ymchwil yna. Yn ffodus, roedd y diwrnod canlynol yn ddiwrnod gêm ryngwladol felly nid oedd angen i'r athrawon edrych yn bell am grys i wisgo!

Siarter Iaith
Mae'r disgyblion a'r staff wedi bod yn gweithio'n hynod o galed ers mis Medi er mwyn ceisio sicrhau gwobr efydd y Siarter Iaith Gymraeg. Mae disgyblion wedi bod yn ennill bathodynnau hyfryd am ymdrechu i weithio a sgwrsio yn y Gymraeg. Rydyn ni'n falch iawn o allu dweud bod yr ysgol wedi derbyn yr anrhydedd a bydd y disgyblion nawr yn dechrau'r gwaith o gryfhau'r Gymraeg yng nghymuned Llanharan. Hoffai'r athrawon ddiolch i Ddreigiau Dolau am yr holl waith maent wedi'i wneud tuag at y wobr.

Pêl-droed
Mae merched Dolau wedi bod yn dangos i'r bechgyn sut i ddriblo a saethu er mwyn ennill gemau. Yn wir, mynychon nhw gystadleuaeth Game On Girls Festival a nhw oedd y buddugwyr. Da iawn ferched!

Radio Cymru 2
Bu Eve Thomas, disgybl blwyddyn 6, yn ddigon ffodus i dderbyn gwahoddiad i siarad ar orsaf radio newydd sbon Cymru, Radio Cymru 2. Siaradodd hi gyda Caryl Parry Jones a Dafydd Du ac roedd hi wedi cynrychioli'r ysgol yn wych. Da iawn ti Eve!

Eisteddfod Yr Urdd
Ddydd Mercher, Mawrth 7fed, teithiodd tîm dawns Dolau i Ysgol Llanhari i gystadlu yn yr eisteddfod. Cawson nhw ddiwrnod gwych a pherfformiodd y plant i gyd yn wych. Mae'r tîm dawns creadigol a dawns disgo wedi llwyddo i fynd drwy i'r rownd nesaf ym Mhorthcawl. Enillodd Anya Grunewald y ddawns unigol, gyda Rebecca Neil yn cipio'r ail wobr. Da iawn i Ysgol Dolau eleni!

Rygbi
Ddydd Iau, Mawrth 8fed, mynychodd Dolau gystadleuaeth rygbi Ysgolion Pontypridd. Gwnaeth y tîm yn dda iawn, gan fynd drwy'r rownd gyntaf ar ôl ennill pob gêm grŵp. Yn y rownd nesaf, dangosodd tîm Dolau eu gwir ddoniau. Enillon nhw'r rown gynderfynol gyda sgôr o 20-0 ac enillon nhw'r rownd derfynol gyda sgôr o 26-7 yn erbyn gwrthwynebwyr cryf iawn. Dangoson nhw'r gallu i weithio fel tîm ac roedd yr amddiffyn yn elfen allweddol yn y llwyddiant. Arweiniodd y capten, Luke Evans, y ffordd; dangosodd Tomos Thatcher-Wynne, Jesse Barnes a Cameron Williams eu gallu amddiffynnol gydag ergydiau anhygoel; dangosodd Daniel Palin ac Ajay Lewis amynedd o dan bwysau er mwyn sgorio ceisiau gwych, ar ôl gwaith pasio gwych gan weddill y tîm. Fe fydd Dolau yn cystadlu nawr yn y rownd derfynol genedlaethol yng Nghlwb Rygbi Dunvant ddydd Gwener, Mawrth 16eg.

Cywion
Unwaith eto eleni, rydyn ni wedi cael cywion bach i warchod. Mae'r disgyblion yn mwynhau edrych ar eu hôl a mwynheuon nhw'r profiad o weld yr wyau yn deor. Mae'r plant yn mwynhau gweld y cywion yn tyfu'n gryfach ac yn gryfach o ddydd i ddydd.

Eisteddfod Ysgol
Cafodd holl ddisgyblion Dolau amser gwych yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi (er ychydig yn hwyr oherwydd yr eira mawr) gan gymryd rhan mewn Eisteddfod Ysgol. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol ac roedd yn fraint cael gwahodd Cynghorydd Barry Stephens a Mrs. Rubery, ynghyd â gwesteion eraill, i ymuno gyda ni am y seremoni cadeirio a choroni. Llongyfarchiadau anferthol i Seren Lewis a Seren Davies am fod yn fuddugol yn y prif gystadlaethau.

Eisteddfod Gylch
Bu tua 70 o ddisgyblion Dolau yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Llanhari. Roeddent yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys canu, dawnsio, llefaru ac offerynnol. Roedd ymddygiad y disgyblion yn wych a pherfformion nhw'n arbennig o dda. Roeddent wedi cynrychioli'r ysgol yn rhagorol ac er nad oedd pawb yn llwyddiannus, roedd hi'n braf iawn gweld y plant yn cefnogi eu ffrindiau a phlant o ysgolion eraill.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Cystadleuaeth Quiz Club
Ddydd Mercher Mawrth 15fed aeth tîm o bedwar disgybl i Ysgol Brentry, Bryste i gystadlu yng nghystadleuaeth gwybodaeth cyffredinol 'Quiz Club'. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn cystadlu'n flynyddol ac wedi cael llwyddiant mawr yn y gorffennol.

Eisteddfod yr Urdd 2018
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd yn ddiweddar. Bu'r disgyblion yn cystadlu mewn sawl cystadlaethau canu a llefaru. Daeth grŵp llefaru yn ail yn Eisteddfod y Sir. Dyna smart iawn oeddent yn edrych yn eu wisg newydd!

Pêl-rwyd Cymru
Dangosodd y criw yma agwedd bositif, pasio perffaith, cydweithio campus a sgiliau syfrdanol yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd Cymru ranbarthau ar y 15fed o Fawrth. Cystadlon nhw'n frwd trwy'r dydd ac ymlaen â nhw nawr i'r rownd nesaf. Llongyfarchiadau!

Ysgol Dolau (tudalen 12)

Eve Thomas

Pêl-droed

Gymnasteg

Trattatoria

Apêl Felindre

Crempog



Siarter Iaith

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Ar 21ain o Fawrth buon ni'n codi ymwybyddiaeth o Syndrom 'Downs' gan wisgo sanau od am y dydd. Ewch ar dudalen Facebook 'BBC Cymru Fyw' – i wylio 'Syndrom Down a Fi:Iwan' er mwyn dysgu am un o'n cyn-disgyblion Iwan West a sut mae Syndrom Down wedi effeithio arno fe a'i deulu.

Llongyfarchiadau enfawr i bawb sydd wedi derbyn gwobr teilyngdod am ysgrifennu stori yn y gystadleuaeth ar gyfer ysgrifenwyr ifanc. Bydd eu straeon byrion yn cael eu cyhoeddi mewn llyfr! Rydyn ni'n falch iawn ohonoch!

Da iawn i'r disgyblion a'r staff brwdfrydig a oedd wedi gwisgo gwisg ffansi enwogion Cymru. Diolch yn fawr i "Griw Cwl Cymreig" y Siarter Iaith am drefnu'r dydd. Tybed a allwch chi ddyfalu pwy oedd pwy?!

Dysgodd plant y Cyfnod Sylfaen lawer o ffeithiau am y môrleidr Barti Ddu yn ddiweddar. Cawsom sioe a hanner a môr o chwerthin gydol y dydd. Diolch Dion Davies.

Tîm Garth Olwg yn barod i gystadlu yn y Quiz Club - Gwybodaeth Gyffredinol

Llongyfarchiadau i Osian Lloyd-Jones am ennill y gadair yn Eisteddfod yr ysgol. Bendigedig!

O'r diwedd fe gaethon ni'r cyfle i weld y plant yn eu gwisgoedd Cymreig ar ôl i'r Bwystfil o'r Dwyrain ddiflannu! Hyfryd i weld un neu ddau fachgen fel Llew yn gwisgo gwisg draddodiadol hefyd!

Rhaid cymeradwyo Nel Jenkins a Llew Harris o Flwyddyn 2 am eu llwyddiant yn yr Eisteddfod! Daeth y ddau yn gyntaf yn adrodd (Nel) a chanu unawd (Llew). Ewch amdani yn y rownd nesaf!

Y Criw Cwl Cymraeg yn cydweithio gyda'r ysgol Saesneg lleol i'w helpu gyda'i darllen Cymraeg. Eu bwriad yw lledu'r Gymraeg yn y gymuned.

Da iawn hefyd i'r Criw Cwl Cymraeg am ennill eu gwobr gyntaf efydd o'r Siarter Iaith! Gwerthfawrogwn eich gwaith caled, da iawn chi!

Da iawn i rieni plant Blwyddyn 3 a 4 am ymdrechu i fynychu gwersi Cymraeg a gynhaliwyd gan eu plant. Gobeithio doedd y Gwaith Cartref ddim yn rhy heriol!

Hoffwn ddweud diolch yn fawr i rieni am eu cyfraniadau tuag at elusen 'Velindre' ar ddiwrnod gwisgo coch ym mis Chwefror. Codwyd £234.98

Llongyfarchiadau i Evan Davies ac Osian Lloyd-Jones am ennill cystadleuaeth e-ddiogelwch 2018!

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Wy, Chips a Nain
Mwynheais y profiad o weld y sioe 'Wy, Chips a Nain' yn yr ysgol, a hynny'n sioe mor ddifyr! Roedd y stori'n dilyn dau gymeriad, Guto a'i Nain. Roedd y stori'n ymchwilio effeithiau'r clefyd dementia ar deulu agos. Daeth yn amlwg imi taw dim ond gwneud y cariad yn fwy mae dementia. Yn dilyn y perfformiad, aethom ni mas o'r theatr wrth gwrdd â'r cast/criw. Cawsom wedyn y cyfle i nodi negeseuon o ddiolch ar linyn, yn union fel roedd cymeriad y Nain yn ei wneud gyda'r holl ddillad yn y ddrama.

Ymweliad y Prifardd Aneurin Karadog
Daeth Aneirin Karadog i gynnal gweithdy ysgrifennu gyda chriw ohonom o flwyddyn 9. Roedd drama Y Tad yn teithio Cymru yn ystod mis Mawrth ac yn ymdrin â dementia. Dysgon ni nifer o ffeithiau am ddementia ar ddechrau'r dydd a'r modd mae'n effeithio ar bobl o bob oed ar draws y byd. Yn dilyn y cyflwyniad roedd rhaid i ni greu darn o waith ar y pwnc. Roedd nifer ohonom wedi dewis ysgrifennu cerddi ac un grŵp wedi cyfansoddi sgript. Roedd pob un yn wahanol, ond nid o reidrwydd yn drist. Rydyn ni wedi dysgu am bwysigrwydd trin pobl â dementia gyda pharch ac i'w helpu. Roedd hi'n wych gallu mynegi rhywbeth am y pwnc cymhleth hwn yn greadigol. Y darn gorau o'r dydd oedd gallu perfformio ein darnau. Roedd dwy ysgol arall wedi cynnal gweithdai a bydd ein gwaith ni yn cael ei cyfuno gyda'u gwaith nhw. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld y gwaith ar ffurf ffilm. Gan griw Blwyddyn 9.

EESW
Hoffwn ddymuno'n dda i dîm Cynllun Addysg Beirianneg Cymru Ysgol Gyfun Garth Olwg. Mae Anya Hayes, Jake Spencer, Gethin Griffiths ac Ieuan Morris wedi bod yn gweithio'n galed gyda pheirianwyr cwmni FSG Tool & Die, Llantrisant i ddatrys problem peirianneg.

Ym Mis Medi 2017 daeth y tîm at ei gilydd gyda'r cwmni ym mhrifysgol De Cymru i glywed am y dasg i gynllunio ffordd i leihau'r amser mae'r offer drud yn segur. Mae'r cwmni mor llwyddiannus mae angen cynhyrchu mwy o beiriannau arnynt ond does dim lle ar ôl i ddod a mwy o offer i'r safle ac mae gweithio shifftiau yn golygu bod y ffatri ar agor 24,7!

Mae'r disgyblion wedi darganfod ffordd i ddatrys y broblem ac maent ar eu ffordd i gyflwyno eu datrysiad i banel o feirniaid yn Ffair Wyddoniaeth, "Big Bang De Cymru", ym Mharc y Scarlets ar y 19eg o Ebrill 2018. Bydd nifer fawr o ddisgyblion blwyddyn 8 yn ymweld â'r Ffair i weld yr holl stondinau a dysgu mwy am yrfa ym maes pynciau STEM. Blwyddyn 8 - cofiwch alw draw i ddweud helo a dangos eich cefnogaeth!

Llwyddiant pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i flwyddyn 7 ar ennill twrnamaint pêl-rwyd Taf Elai ac i flwyddyn 9 am ddod yn ail. Llwyddodd Caitlin Reid, Blwyddyn 7 a Lara Watts, Blwyddyn 9 ennill chwaraewyr y twrnamaint.

Llwyddiant pêl-droed
Llongyfarchiadau i Ethan Vaughan sydd wedi cael ei ddewis i chwarae pêl-droed i garfan Cymru yn y 'Tri Nation Tournament yng Ngwlad Belg yng nghanol Ebrill. Pob hwyl iddo ef a'r tîm. Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl-droed bechgyn blwyddyn Blwyddyn 8 am ennill twrnamaint Pontypridd ac i flwyddyn 7 am ddod yn ail.

Rygbi 7 bob ochr
Braf oedd gweld bechgyn blwyddyn 8 yn cystadlu mewn dau dwrnamaint 7 bob ochr

yn ystod y mis. Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn yng nghystadleuaeth yr Urdd ac rydym yn falch iawn o fechgyn Blwyddyn 8 a frwydrodd trwy'r tywydd oer i orffen yn 2il yn y grŵp yng nghystadleuaeth rygbi 7 bob ochr ym Mharc Rosslyn.

Cyflwynwyr Campus
Mae sioe radio yr wyf yn cyflwyno gyda fy nhad ar GTfm (gorsaf radio lleol Pontypridd a'r ardal) wedi cael ei henwebu am wobr fawreddog iawn: y Cardiff Music Award. Cawsom ein henwebu yn wreiddiol gan rywun (dydyn ni ddim yn gwybod pwy) ac yna cyrhaeddom y rhestr fer o bump. Mae hyn yn sioc fawr i ni gan ein bod yn gwirfoddoli ar y sioe ac mae'n cael ei darlledu rhwng 10 ac 1 ar nosweithiau Llun. Rydym wedi cael ein rhoi ar y rhestr fer yn erbyn gorsafoedd mawr masnachol a'r BBC. Gan Elen Warner Griffiths, Blwyddyn 12.

Gwyddonwyr y Dyfodol
Bu Techniquest yn yr ysgol yn ystod y mis yn cynnal gweithdy golau gyda disgyblion Blwyddyn 9. Gwnaethant ddysgu sut mae'r sbectrwm electromagnetig yn gweithio gan gynnwys y gwahanol fathau o belydredd. Cawsant gyfle i ddefnyddio camera is-goch a dysgu sut byddai'n cael ei ddefnyddio mewn bywyd pob dydd. Roeddent hefyd wedi cael hwyl yn defnyddio drych i greu animeiddiad gyda lego. Diolch i Techniquest am ddod i'r ysgol.

Ysgol Llanhari

Ffair Wyddoniaeth
Cynhaliwyd Ffair Wyddoniaeth hynod lwyddiannus yn ddiweddar gyda holl ddisgyblion blwyddyn 7 yn paratoi stondin wybodaeth ar amrywiol arbrofion a wnaed ganddynt yn eu gwersi Gwyddoniaeth. Roedd yr ymdrech yn wych a'r esboniadau gan y disgyblion yn aeddfed a gwybodus dros ben. Diolch i Mr Marc Evans am drefnu ac i holl aelodau'r adran Wyddoniaeth am eu gwaith caled.

BBC School Report

Bu chwech disgybl o flwyddyn 9 - Siwan, Becky, Celyn, Taliesin, Dyfan a Tommy yn ffodus i gael eu dewis i fod yn rhan o ddiwrnod BBC School Report eleni. Bu'r disgyblion yn mynychu gweithdai gyda Mrs Carrie Smith yn ystod y tymor a phenllanw'r profiad oedd derbyn gwahoddiad i dreulio diwrnod y School Report yn y stiwdios yn Llandaf. Cawsant brofiadau gwych gan gynnwys ysgrifennu bwletinau newyddion i Wales Today a chyflwyno'r tywydd a thraffig ar Radio Cymru.

Statws efydd y Siarter Iaith
Mewn seremoni wobrwyo ar ôl hanner tymor derbyniodd Gwenno a Ffion wobr efydd y Siarter Iaith ar ran disgyblion yr adran gynradd. Mae llawer o waith gwych wedi ei wneud wrth fynd ati i ennill y wobr efydd ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill er mwyn camu tuag at y wobr arian. Diolch i Miss Elin Williams am gyd-lynu mor effeithiol.

Eisteddfod yr Urdd

Mae'n dymor eisteddfota unwaith eto! Rydym yn falch iawn o'r holl unigolion sydd wedi cystadlu yn y cylch ac yn dymuno'n dda i bawb yn yr Eisteddfod Sir a gynhelir rhai dyddiau cyn y Pasg. Crewyd ychydig o hanes yn yr eisteddfod gylch wrth i griw o ferched o'r adran gynradd gystadlu yn y gystadleuaeth dawnsio disgo am y tro cyntaf ac wrth i barti unsain yr adran gynradd ennill yr ail safle wrth iddyn nhw gystadlu am y tro cyntaf erioed o dan arweiniad Miss Bethan Phillips yr Arweinydd Pwnc Cerdd. Gwych!

Gwobr ASD Cymru
Ymfalchiwn mai ni yw'r ysgol 3-19 gyntaf yng Nghymru i ennill gwobr sy'n cydnabod ein hymrwymiad i sicrhau ymwybyddiaeth holl aelodau'r ysgol, yn staff, disgyblion a llywodraethwyr o gyflwr Awtistiaeth. Derbynwiyd hyfforddiant yn Nhymor yr Hydref a braf iawn derbyn y gynabyddiaeth hon rhai misoedd yn ddiweddarach.

Llwyddiant Bechgyn Rygbi blwyddyn 10
Dymuniadau gorau i fechgyn blwyddyn 10 sy'n cynrychioli Ysgolion Pontypridd ac sydd wedi llwyddo i gyrrraedd rownd derfynol Cwpan y Dewar trwy guro ysgolion Caerdydd o 15 i 12 yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Evan Griffiths, Siôn Pari, Jack a Rhys Dauncey, Lloyd Matrhews a William Peart a phob lwc i chi yn Stadiwm y Principality!

Diwrnod Trosglwyddo blwyddyn 6
Treuliodd disgyblion blwyddyn 6 ddiwrnod yn Ysgol Llanhari yng nghanol mis Mawrth

yn mwynhau naill ai gwersi a gweithgareddau iaith dramor neu'n dylunio a choginio stir fry yn yr Adran Dechnoleg. Mae'n braf estyn croeso i'r disgyblion newydd ac edrychwn ymlaen at eu gweld eto yn Nhymor yr Haf

Diwrnod y Llyfr 2018
Dathlwyd diwrnod y llyfr yn yr adran gynradd yn ôl ein harfer trwy wisgo lan fel rhai o'n hoff gymeriadau a mwynhawyd gweithgareddau amrywiol trwy gydol y dydd. Rhan bwysig o'r diwrnod oedd lawnsio cynllun bydis darllen lle bydd disgyblion blwyddyn 10 yn darllen yn wythnosol gdya disgyblion Cyfnod Allweddol Dau.

Wythnos Wyddoniaeth yr adran gynradd
Mae gwyddonwyr o fri yn yr adran gynradd hefyd! Cynahliwyd wythnos Wyddoniaeth cyn y Pasg ac roedd y disgyblion wrth eu bodd yn dysgu ac yn rhannu eu gwybodaeth ag eraill.

Datblygu a Chyffroi - Clwb Rygbi Pontypridd

Mae tri mis wedi mynd heibio ers i Uwch-adran y Principality uno i un gynghrair, wedi iddi gael ei rhannu yn ddwy is-gynghrair - gorllewin a dwyrain - yn gynharach yn y tymor.

Mae'r gynghrair newydd yn dechrau cymryd siâp, gyda'r rhan fwyaf o dimau erbyn diwedd Mawrth wedi chwarae chwech neu saith o gemau.

Digon anghyson fu hynt CR Pontypridd hyd yn hyn, yn hawlio'r pedwerydd safle yn y tabl. Roedd dwy gêm ddiweddar, gartref yn erbyn Penybont ac oddi cartref yn erbyn Castell Nedd, yn brawf o'r anghysondeb hwn, y ddwy gêm yn rhai hynod o ddramatig gyda'r canlyniad yn y fantol tan y chwiban olaf un.

Enillodd Ponty y ddwy gêm, ond dim ond o drwch blewyn, a hynny ar ôl gwneud eu gorau yn ôl pob tebyg i golli. Yn sicr cafodd y dyrfa ar y ddau achlysur werth eu harian, gyda llwyth o geisiau yn cael eu sgorio a digon o gyffro.

Adlewyrchu cyfnod o drawsnewid o fewn y garfan y mae'r anghysondeb diweddar ym mherfformiadau Pontypridd. Y mae'r tymor hwn yn un lle mae tîm hyfforddi newydd, dan ofal Justin Burnell, yn rhoi eu stamp ar bethau, a nifer o wynebau ifanc newydd yn y tîm.

Mae llwybr datblygiad i chwaraewyr ifanc yn cael ei gynnig, o Ysgolion Pontypridd, i Goleg y Cymoedd ac ymlaen i Brifysgol De Cymru. Mae nifer o chwaraewyr o'r colegau hyn wedi cynrychioli Pontypridd yn yr Uwch-adran yn ystod y tymor, gydag ambell hen ben fel Ceri Sweeney a'r capten Dafydd Lockyer yn cynnig gwerth eu profiad iddynt.

Y darogan yw y bydd newidiadau mawr o fewn rygbi Cymru dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, ac y mae strwythur a phwrpas Uwch-adran y Principality yn cael ei drafod yn fanwl gan Undeb Rygbi Cymru ar hyn o bryd. Eisoes mynegodd y cwmni darlledu cenedlaethol S4C ddiddordeb mewn dangos mwy o gemau'r gynghrair yn fyw ar y teledu, wedi i'r contract i ddangos gemau'r Pro-14 gael ei golli gan S4C a'r BBC.

Y nod i Bontypridd felly yw cadarnhau safle'r clwb yn yr Uwch-adran, a chryfhau'r broses werthfawr o ddatblygu talent ifanc lleol i gamu i'r bwlch.

Mynegodd prif weithredwr y clwb, Stephen Reardon, y farn fod disgwyliadau'r cefnogwyr efallai yn rhy uchel, ac mai gosod gwreiddiau ar gyfer llwyddiant y dyfodol sy'n bwysig ar hyn o bryd. Beth bynnag am hynny, mae gornestau pwysig i ddod yn y gynghrair, ac o leiaf mae gan Bontypridd y ddawn i gyffroi ac i ddiddanu, i chwarae rygbi creadigol, hyd yn oed os yw canlyniadau'r gemau yn y fantol tan yr eiliadau olaf!



THEATR GENEDLAETHOL
24.04.18 19:30



THEATRAU RCT
27.04.18 19:30



BARA CAWS
25+26.05.2018 19:30

CANOLFAN DYSGU GYDOL OES GARTH OLWG
DIGWYDDIADAU
@GARTHOLWGLLC
01443 570 075
GARTHOLWG.ORG
CF38 1RQ